Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 01.07.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLOGAETH: Perchnogaeth Gweithwyr

Mae Perchnogaeth Gweithwyr yn opsiwn i berchnogion busnes sydd eisiau gwerthu eu busnes neu gwobrwyo a chadw staff, gyda tystiolaeth yn dangos bod busnesau sy'n eiddo i weithwyr yn fwy cynhyrchiol ac yn fwy gwydn. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan eu bod eisiau dyblu nifer y busnesau yng Nghymru sy'n eiddo i'w gweithwyr, a thrwy Perchnogaeth Gweithwyr Cymru maent yn darparu cyngor penodol, wedi'i gyllido'n llawn, i helpu busnes i benderfynu os mai Cynlluniau Perchnogaeth a Chyfrannau Gweithwyr yw'r ateb ar eu cyfer. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://employeeownershipwales.co.uk/cy/

I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/diwrnod-perchnogaeth-gan-weithwyr-gweinidog-yr-economi-yn-nodi-cynlluniau-i-ddyblu-nifer-y-busnesau

## TRAFNIDIAETH: £48 miliwn i helpu diwydiant bysiau Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fod pecyn cymorth gwerth £48 miliwn yn cael ei roi i'r diwydiant bysiau yng Nghymru i'w helpu i adfer o effeithiau'r pandemig ac i ymateb i'r heriau ariannol sy'n ei wynebu. I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://llyw.cymru/48-miliwn-i-helpu-diwydiant-bysiau-cymru-i-oroesi-ffynnu

## CYFLE: Creu Busnes yn M-SParc #ArYLôn Haf 2022

Mae M-SParc #ArYLôn yn chwilio am bobl 15 i 23 oed creadigol ac arloesol i weithio yn eu lleoliadau yng Nghaernarfon neu Bae Colwyn dros yr haf. Mae hyd at £2,000, cymorth busnes am ddim a hyfforddiant offer Ffiws ar gael i weithio ar syniad busnes o'r sector technoleg, digidol, creadigol neu wyddoniaeth. I wneud cais, ewch i:

https://bit.ly/3nvGiNL

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://www.facebook.com/hashtag/arylon

## IECHYD A DIOGELWCH: Diogelu gweithwyr beichiog a mamau newydd

Mae canllawiau wedi'u diweddaru sy'n egluro sut y dylai cyflogwyr reoli iechyd a diogelwch gweithwyr beichiog a mamau newydd ar gael ar:

https://www.hse.gov.uk/mothers/employer/index.htm

## BWYD A DIOD: Maggie Ogunbanwo o Benygroes yn ennill gwobr fyd-eang adnabyddus

Llongyfarchiadau i Maggie Ogunbanwo, mi wnaeth ei llyfr 'The Melting Pot' ennill gwobr yng Ngwobrau Gourmand World Cookbook – maent wedi'u cymharu ag Oscars y byd llenyddiaeth bwyd. Mae 'The Melting Pot' yn gasgliad o ryseitiau sy'n dod â bwydlen o brydau o bob rhan o'r byd ynghyd i ddathlu amrywiaeth y gymuned Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae cwmni Maggie, 'Maggie's An African Twist to your Everyday Dish', wedi ei leoli ym Mhenygroes, ac yn gwneud cynhyrchion bwyd Affricanaidd, fel sbeisys a sawsiau. Mae mwy am hyn ar:

https://bit.ly/3a96db4

## DIGIDOL: Cyflymu Cymru i Fusnesau – Gweminarau am ddim

Mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau ystod o weminarau rhad ac am ddim yn yr wythnosau nesaf sy'n rhoi cyngor ymarferol i chi i helpu hyrwyddo'ch busnes a chystadlu ar-lein. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru